# Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut

# Adroddiad Blynyddol 2019

`




***Rhisiart Arwel***

***Monitor Academaidd a Chadeirydd Pwyllgor Cynllun Cymraeg Patagonia***

## CYNNWYS

1) Gorolwg, Dull a Maes Llafur. Tud. 3

2) Cyllid, Hanes Tud. 4

3) Taith Arsylwi ac Adroddiad y Monitor Tud. 5

4) Llwyddiannau Allweddol Tud. 6

5) Targedau 2019. Traweffaith y Cynllun/Ystadegau a Ffigurau. Tud. 7 – 13

6) Arholiadau CBAC Tud. 14

7) Pigion o adroddiad y Cydlynydd Dysgu. Tud. 15 - 16

8) Sefydliadau Addysgol Patagonia. Tud. 17- 18

9) Ysgolion Dwyieithog y Wladfa. Tud. 19 – 31

10) Y Gymraeg mewn Ysgolion cyfrwng Sbaeneg. Tud. 32 - 35

11) Dosbarthiadau Porth Madryn. Tud. 36

12) Menter Patagonia a phigion o adroddiad y Swyddog Menter. Tud. 38 - 44

13) Pigion o adroddiadau Swyddogion Dysgu 2019. Tud 45 – 51

14) Argymhellion 2018: Adroddiad Cynnydd. Tud. 52 - 53

15) Argymhellion 2020. Tud. 54



## GOROLWG

Sefydlwyd Prosiect yr Iaith Gymraeg yn 1997 gyda'r pwrpas o hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, yr Ariannin.

Bob blwyddyn, mae tri Swyddog Datblygu Iaith o Gymru yn treulio cyfnod o ddeg mis - rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr - yn gweithio ym Mhatagonia. Maent yn datblygu'r iaith mewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg drwy ddysgu ffurfiol mewn dosbarthiadau i bobl ifanc ac oedolion, yn nosbarthiadau'r tair ysgol gynradd ddwyieithog, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfrwng Sbaeneg a thrwy weithgareddau cymdeithasol anffurfiol. Mae Cydlynydd Dysgu parhaol o Gymru sy'n gyfrifol am ansawdd y dysgu hefyd wedi'i lleoli ym Mhatagonia.

Agwedd arall ar y prosiect yw'r rhwydwaith o diwtoriaid Cymraeg sydd wedi'u lleoli yn Nhalaith Chubut. Mae nifer o'r tiwtoriaid lleol yma yn gweithio i'r Cynllun ar ôl iddynt eu hunain fynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Trwy ymgeisio am ysgoloriaethau a chael cyfleoedd i ymweld â Chymru i fynychu cyrsiau Cymraeg, mae'r Cynllun yn gallu cynorthwyo i gynnal safonau addysgu a'r fethodoleg ddiweddaraf sydd ar waith ym Mhatagonia.

Cytundeb grant ydy Cynllun yr Iaith Gymraeg Patagonia, ac mae'n cael ei weithredu gan British Council Cymru mewn cydweithrediad â Phwyllgor yr Iaith Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, British Council Cymru, Cymdeithas Cymru Ariannin, Urdd Gobaith Cymru, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Hoffem ddiolch i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am gyfrannu cyllid i ariannu tair ysgoloriaeth flynyddol i alluogi myfyrwyr o'r Wladfa ddod i Gymru i astudio ar gyrsiau haf. Mae'n bleser hefyd cydnabod cyfraniad gwerthfawr Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr a Dysgu Cymraeg Caerdydd am gynnig cyrsiau'n rhad ac am ddim i fyfyrwyr Patagonia yn eu darpariaeth dros yr Haf. Yn ychwanegol, mae'n dda cael cyfle i gydnabod cymorth Adran Gymraeg Prifysgol Bangor am y cymorth gydag elfennau o hyfforddiant.

### Dull a maes llafur

Mae'r Cynllun yn gweithio mewn tri dalgylch yn nhalaith Chubut: yr Andes, Gaiman a Threlew.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau o lefel dechreuwyr i gyrsiau gloywi a sesiynau siarad ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn cynnal y cyrsiau hyn yn y sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac ym maes oedolion.

Mae Swyddogion Datblygu'r Iaith Gymraeg a gyflogir gan y Cynllun yn addysgu amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Blasu, Mynediad. Sylfaen Canolradd, Uwch a Meistroli. Hyd at yn ddiweddar, defnyddiwyd cyrsiau oedolion - wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destunau Sbaeneg a Chymraeg - a baratowyd gan Dysgu Cymraeg Prifysgol Caerdydd. Mae'r Cynllun bellach wedi yn dechrau defnyddio cyrsiau newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn y man, bydd y cyrsiau i gyd yn cael eu cyfieithu a'u haddasu ar gyfer y Wladfa.

Mae Pwyllgor y Cynllun yn cydnabod cyfraniad hael a phwysig y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i waith y Cynllun ym Mhatagonia.

**Cyllid**

Nid oes llawer o newid wedi bod yng nghyfanswm cyllid y Cynllun dros y blynyddoedd. I bob pwrpas felly, mae ei werth wedi dirywio mewn termau real, flwyddyn ar ôl blwyddyn, er y lleddfir hyn rhyw gymaint o ganlyniad i ddibrisiad sylweddol yng ngwerth y Peso Archentaidd dros y blynyddoedd.

Mae Llywodraeth Cymru, British Council Cymru a Chymdeithas Cymru-Ariannin yn cyd-ariannu'r prosiect hwn, sy'n rhan o Raglen Addysg Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Mae cefnogaeth i waith y Cynllun yn dod hefyd o Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prifysgolion, Caerdydd, Aberystwyth a Bangor yn ogystal ag Urdd Gobaith Cymru.

Nid oes modd er hynny, i gyllid gymharol fychan y Cynllun dalu am bob elfen o'r gwaith yn cefnogi iaith a'r diwylliant Cymraeg yn y Wladfa. Mae cyfraniadau ariannol ac ymarferol ein partneriaid yn hynod bwysig er mwyn gallu darparu ystod eang o ddosbarthiadau, gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg yn nhalaith Chubut.

Mae Cynllun Cymraeg Patagonia yn talu am dri Swyddog Datblygu'r Gymraeg sy'n gweithio yn y Wladfa am ddeg mis bob blwyddyn. Yn ychwanegol, defnyddir oddeutu 22% o gyllid y Cynllun i dalu am wasanaeth y tiwtoriaid lleol gyda'r dosbarthiadau oedolion ac mewn dosbarthiadau yn yr ysgolion dwyieithog.

Mae llywodraeth Talaith Chubut yn talu am 100 awr o ddysgu Cymraeg yn yr ysgolion a'r dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Mae sefyllfa ariannol y tair ysgol ddwyieithog yn wahanol wrth gwrs, ond maent i gyd yn talu o'u cyllid eu hunain am elfennau fel cost athrawon, pensiynau, deunyddiau dysgu ac ati. Mae rhai cynghorau lleol - fel Cyngor y Gaiman - hefyd yn talu am ddosbarthiadau Cymraeg mewn ambell ysgol Sbaeneg eu hiaith. Heb y cyfraniadau ychwanegol yma, ni fyddai cymaint o weithgareddau cefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn digwydd ym Mhatagonia.

**Hanes**

Ym mis Mai 1865, hwyliodd oddeutu 153 o deithwyr o Gymru ar gwch y Mimosa i Dde America mewn ymgais i osgoi gorthrwm a thrais yn eu mamwlad. Y gobaith oedd creu'r Gymru newydd ar diroedd eang ac anial Patagonia. Glaniodd y mewnfudwyr o Gymry ar arfordir yr Ariannin am y tro cyntaf ar Orffennaf yr 28ain 1865.

Erbyn heddiw, mae disgynyddion y daith gychwynnol honno, ynghyd â nifer o'r teithwyr eraill a gyrhaeddodd yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn byw mewn sawl cymuned ar draws Talaith Chubut.

Mae Cymru a Phatagonia felly wedi'u huno gan draddodiad a hanes ac mae seiniai'r Gymraeg i'w chlywed yn y Wladfa hyd heddiw. Yn yr un modd, mae llawer o'r traddodiadau diwylliannol megis y Cymanfaoedd Canu a'r Eisteddfodau yn parhau i gael eu harfer a'u mwynhau o hyd.

Does dim ffigyrau dibynadwy ar gael am y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y Wladfa, ond ar ddechrau'r 21ain ganrif, amcangyfrifir bod tua 50,000 o boblogaeth Patagonia o dras Gymreig.

**Taith Arsylwi 2019**

Mae'r daith arsylwi yn rhoi'r cyfle i'r Monitor Academaidd brofi ac arsylwi'r dysgu yn y Wladfa. Mae'n gyfle pwysig hefyd i drafod gyda staff, tiwtoriaid, pwyllgorau lleol a'r gymuned yn ehangach er mwyn cael darlun cyflawn o'r sefyllfa ar lawr gwlad.

Yn 2019, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda phartneriaid a nifer o bwyllgorau lleol yn ogystal ag arsylwi dosbarthiadau Cymraeg yn yr Ysgolion Cynradd Dwyieithog, yr Ysgolion Uwchradd (sy'n cynnig Cymraeg fel pwnc) a nifer helaeth o ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Ariannwyd taith arsylwi 2019 yn gyfan gwbl gan Gymdeithas Cymru-Ariannin a hoffai'r Monitor Academaidd gydnabod y cyfraniad pwysig hwn i waith y Cynllun.

**Adroddiad y Monitor Academaidd**

Bwriad yr adroddiad hwn yw adlewyrchu'r ystod eang o waith dysgu'r Gymraeg a'r gweithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn Nhalaith Chubut. Dathlu llwyddiant yr ystod, yr amrywiaeth a'r bwrlwm o weithgareddau yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig felly yw'r prif nod, yn hytrach na chyfyngu i'r hyn a ariennir gan y Cynllun Cymraeg yn unig. Nid oes modd i gyllid cymharol fach y Cynllun gyflawni'r gwaith pwysig ar draws y cymunedau. Un o'r arwyddion pennaf sy'n tystio i lwyddiant y Cynllun yw ei fod wedi sbarduno sefydlu taith ysgol ddwyieithog ond hefyd cymaint o weithgaredd amrywiol yn ystod y blynyddoedd diweddar.



**Dosbarth Cymraeg i staff Ysgol y Cwm, Trevelin gyda Clare Vaughan**

## LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL 2019

1) Anfonwyd tri Swyddog Datblygu i Batagonia yn 2019: un athro/tiwtor i'r Andes, 90% dysgu a 10% o'r amser yn cynorthwyo gyda gwaith Menter Patagonia

Un person i Ddyffryn Camwy yn dysgu am 90% o'r amser a 10% o'r amser ar waith Menter Patagonia.

Un person yn rhannu'r amser rhwng yr Andes a Dyffryn Camwy, i dreulio 90% o'r amser yn gweithio ar waith Menter a 10% yn cynorthwyo gyda'r dosbarthiadau

2) Cyfanswm o **1411** o bobl ar gyrsiau Cymraeg, twf o **14.1%** ers y llynedd.

3) Twf o **13.9%** yn niferoedd Plant CA1 (6 i 8 oed) a CA2 (9-11 oed), twf o bron **30%** o dwf yn niferoedd y bobl ifanc yn eu harddegau. Gwelwyd twf o **14%** hefyd yn niferoedd yr Oedolion ar draws y Dalaith.

4) Cynnydd yn Ysgol y Cwm, Trevelin, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol yr Hendre Trelew.

5) Ysgoloriaethau gwerth **£2000** yr un a gyllidir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i alluogi myfyrwyr o Batagonia astudio ar gyrsiau Cymraeg yng Nghaerdydd a/neu Aberystwyth.

6) Cyfrannu at gynnal nifer fawr o ddigwyddiadau gan sefydliadau a grwpiau gwahanol e.e. Yr Urdd, Capeli'r Dyffryn a'r Andes



**Dosbarth Cymraeg i rai o'r plant lleiaf yng Nghanolfan Esquel, yr Andes gyda Glenda Powel**

## TARGEDAU 2019

1 Anfon 3 Swyddog Datblygu i addysgu ac i gymdeithasoli iaith gyda Menter Patagonia – dau Swyddog Dysgu ac un Swyddog Menter

Yn Nyffryn Camwy penodi un athro/tiwtor i ddysgu ar draws sawl sector – cynradd, uwchradd ac oedolion

Yn yr Andes, penodi un athro/tiwtor i weithio gyda'r cyfnod cynradd, yr arddegau a'r oedolion.

Penodi un Swyddog Menter i weithio ar gynllunio a gweithredu digwyddiadau cymdeithasoli iaith ar draws talaith Chubut – pum mis yn yr Andes a phum mis yn Nyffryn Camwy

2) Cyflogi un Cydlynydd Dysgu llawn amser yn y Wladfa.

3) Cynorthwyo myfyrwyr o'r Wladfa i fynychu Cwrs yr Haf, Prifysgol Caerdydd neu Brifysgol Aberystwyth.

4) Cynnal a chynyddu nifer y dysgwyr mewn gwersi Cymraeg

5) Parhau'r drafodaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am addasu a chyfieithu cyrsiau Cymraeg i Oedolion newydd ar gyfer Patagonia

6) Parhau i geisio datblygu cynllun strwythuredig o hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid y Wladfa

**Gwireddwyd y cyfan o'r targedau uchod yn ystod 2019**



***Sinead Harris, y Swyddogl Datblygu (Menter) mewn gweithgaredd gyda chriw o ddisgyblion Ysgol Gymraeg y Gaiman***

## *TRAWEFFAITH Y CYNLLUN*

### YSTADEGAU

1 Cydlynydd Dysgu – Clare Vaughan (yr Andes)

1 Cydlynydd Gweinyddol – Luned González (Dyffryn Camwy)

2 Swyddog Datblygu Dysgu (1 yn y Dyffryn ac 1 yn yr Andes):

Gruffydd Evans (yr Andes) Plant/Ieuenctid/Oedolion

Geraint Ashton (Y Dyffryn) Plant/Ieuenctid/Oedolion

1 Swyddog Datblygu Menter - Sinead Harris, yn rhannu ei hamser yn gyfartal rhwng yr Andes a Dyffryn Camwy

31 o athrawon/tiwtoriaid yn dysgu'r Gymraeg - 21 yngyfrifol am ddysgu plant a 10 yn dysgu oedolion.

**Nifer y dosbarthiadau**: Roedd **114** (115) o ddosbarthiadau yn 2019 - 81 ohonynt yn ddosbarthiadau plant a phobl ifanc, a 31 yn ddosbarthiadau oedolion.

| ***Gaiman (yn cynnwys Dolavon)*** | ***Trelew (yn cynnwys Porth Madryn a Comodoro)*** | ***Yr Andes (yn cynnwys Esquel a Threvelin)*** |
|---|---|---|
| ***68*** *(63)* | ***23*** *(30)* | ***23*** *(22)* |

***Nifer y dysgwyr:***

| | ***Gaiman (gan gynnwys Dolavon)*** | ***Trelew (gan gynnwys Porth Madryn, Comodoro)*** | ***Yr Andes*** | ***CYFANSWM*** |
|---|---|---|---|---|
| ***2019*** | ***965*** | ***226*** | ***220*** | ***1411*** |
| *2018* | *831* | *210* | *195* | *1236* |
| *2017* | *758* | *165* | *203* | *1126* |
| *2016* | *873* | *185* | *212* | *1270* |
| *2015* | *739* | *200* | *281* | *1220* |
| *2014* | *722* | *251* | *201* | *1174* |
| *2013* | *657* | *171* | *157* | *985* |
| *2012* | *607* | *145* | *225* | *977* |
| *2011* | *582* | *133* | *131* | *846* |
| *2010* | *527* | *85* | *150* | *762* |

**Niferoedd o ran haenau oedran y talgylchoedd:**

| | **Gaiman (yn cynnwys Dolavon)** | **Trelew (yn cynnwys Madryn)** | **Yr Andes (Esquel a Threvelin)** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meithrin (o dan 5 oed)** | **99** 110 | **44** 45 | **51** 57 | **194** 212 |
| **Ôl-feithrin (CA1)** | **141** 109 | **54** 59 | **53** 50 | **248** 218 |
| **Plant cynradd (CA2)** | **238** 235 | **58** 37 | **71** 50 | **367** 322 |
| **Arddegau** | **423** 315 | **0** 10 | 0 2 | **423** 327 |
| **Oedolion** | **64** 62 | **70** 59 | **45** 36 | **179** 157 |
| **CYFANSWM** | **965** 831 | **226** 210 | **220** 195 | **1411** 1236 |

**Sylwadau**:

Mae'n braf iawn cael nodi bod ffigyrau niferoedd y dysgwyr wedi cynyddu unwaith yn rhagor eleni. Mae'r llwyddiant yma i'w briodoli i waith caled ein Swyddogion Datblygu, y tiwtoriaid a'r athrawon lleol, y lli o wirfoddolwyr a'n staff ar lawr gwlad. Llongyfarchiadau mawr i bawb am gyflawni cymaint eto yn 2019.

Mae hyn i gyd yn fwy rhyfeddol wrth ystyried sefyllfa economaidd a chymdeithasol fregus yr Ariannin trwy gydol 2019.

Yn ôl ystadegau cyhoeddus, cododd chwyddiant yr Ariannin  i 53.8%, gyda phrisiau yn cynyddu 3.7% yn ystod y flwyddyn a'r economi cyfan yn crebachu 2.7%.

Oherwydd y sefyllfa economaidd fregus a'r wasgfa ar gyflogau, bu nifer fawr o athrawon yn y sector gyhoeddus ar streic am sawl cyfnod yn nhalaith Chubut yn ystod y flwyddyn. Ni effeithiodd hyn yn uniongyrchol ar yr ysgolion Cymraeg/dwyieithog gan eu bod yn cael eu hystyried yn ysgolion preifat, ond wrth i nifer o rieni bryderu am yr  ymyrraeth ar addysg eu plant yn y sector gyhoeddus, penderfynodd nifer ohonynt symud eu plant i'r ysgolion Cymraeg dwyieithog. Tra bod hyn yn newyddion ardderchog o ran niferoedd ac incwm, bydd yn bwysig sicrhau ar gyfer y dyfodol na fydd y niferoedd ychwanegol yma yn gwanhau adnoddau'r ysgolion dwyieithog yn ormodol.

Yn dilyn etholiad arlywyddol yn yr Ariannin yn ystod Hydref 2019, y gobaith yw y daw cyfnod mwy sefydlog ar lefel gymdeithasol ac economaidd yn sgil penodi Arlywydd a llywodraeth newydd.

Mae nifer y dosbarthiadau ar draws y dalaith wedi aros bron yr un peth yn ystod 2019.

Fel mae'r ffigyrau'n dangos, mae niferoedd disgyblion y tair ysgol gynradd ddwyieithog wedi parhau'n weddol gyson ac, ar wahân i'r sector meithrin, mae cynnydd wedi bod ym mhob

un o’r oedrannau. Yn CA1 er enghraifft, gwelwyd **13.7%** o gynnydd a **14%** o gynnydd yn CA2. Y twf mwyaf er hynny oedd ymhlith yr arddegau - bron **30%** o gynnydd.

Does dim syndod bod y sector cynradd ac uwchradd yn parhau i gynnal y niferoedd. Mae’r gwaith caled a chyson gan yr ysgolion eu hunain - ynghyd â chyfraniad pwysig Swyddogion y Cynllun - wedi sicrhau llwyddiant a thwf parhaus.

Mae llwyddiant a hyder yr ysgolion eu hunain yn amlwg bellach wrth iddynt gynyddu niferoedd a chyflogi athrawon o Gymru eu hunain. Yn achos Ysgol yr Hendre yn arbennig, cyflogwyd dau athro o Gymru yn ystod 2019. Roedd un ohonynt yn arbenigwraig ar gerddoriaeth a dawnsio gwerin, rhywbeth sy’n sicr o gyfoethogi profiad y disgyblion. Mae’n fwriad gan yr ysgolion barhau i gyflogi athrawon o Gymru yn ystod 2020 ac mae hyn yn rhywbeth i’w ddathlu a’i groesawu.

Rhaid hefyd cydnabod cyfraniad ysgolion Sbaeneg eu hiaith - Ysgol 24 Esquel, Ysgol 100 y Gaiman, Ysgol Bryn Gwyn ac Ysgol Aliwen yn Nyffryn Camwy - am y cyfraniad pwysig maent yn ei wneud trwy gefnogi dosbarthiadau a gweithdai Cymraeg. Mae hyn oll yn gymorth mawr i ledaenu dealltwriaeth a gwella agweddau ymhlith y gymdeithas drwyddi draw. Yn y pen draw bydd y cyfraniadau yma’n cynorthwyo i normaleiddio’r iaith a’r diwylliant ym mywydau trigolion talaith Chubut.

Bellach, mae’r sector Meithrin yn cynrychioli **13.75%** o ddysgwyr y Wladfa, tra bod y sector Cynradd (CA1 a CA2) yn cynrychioli **43.6%** o’r dysgwyr.

**30%** yw canran y sector arddegau.

Nôl yn 1997 ar ddechrau’r Cynllun, 279 o oedolion oedd yn dysgu. Bryd hynny wrth gwrs yr oedolion oedd yn cael y flaenoriaeth, yn cynrychioli **49%** o’r holl ddysgwyr.

Erbyn hyn, **12.7%** yw canran yr Oedolion o holl ddysgwyr Y Wladfa.





***Marina Cid, un o athrawon lleol yr Andes gyda dosbarth Cymraeg i blant yng Nghanolfan Hazel Charles Evans,  Esquel***

## Niferoedd o ran lefelau iaith oedolion

| | Mynediad (Wlpan 1) | Sylfaen (Wlpan 2) | Canolradd (Pellach) | Uwch a Meistroli | Hyfedredd (Gloywi) | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | **32** (26) | **6** (0) | **4** (6) | **11** (5) | **11** (10) | **64** (62) |
| **Trelew** | **39** (27) | **16** (15) | **9** (10) | **3** (1) | **3** (6) | **70** (59) |
| **Yr Andes** | **16** (12) | **5** (9) | **7** (6) | **14** (6) | **0** (3) | **42** (36) |
| **Cyfanswm** | **87** (65) | **27** (24) | **20** (22) | **28** (12) | **14** (19) | **176** (157) |

Mae niferoedd dosbarthiadau Cymraeg yn Nyffryn Camwy yn cynnal yn arbennig o dda o hyd ac mae'n dda iawn gweld cynnydd yn niferoedd yr oedolion yn yr Andes eleni ar ôl cyfnod o gyni. Y gobaith yw y bydd y twf yma yn parhau yn ystod 2020 a bod y dosbarthiadau ar y lefelau uchaf yn gweld yr un cynnydd.

Mae'r sector arddegau yn parhau'n heriol i ardal yr Andes; un o'r rhesymau am hyn yw diffyg ysgol Uwchradd sy'n gefnogol i'r Gymraeg fel pwnc yn yr ardal. Mae'r ffaith bod y Gymraeg yn orfodol yn ystod tair blynedd gyntaf Coleg Camwy (ysgol uwchradd) yn y Gaiman yn gymorth mawr wrth ddenu a chynnal sector yr arddegau yn y Dyffryn.

Gan nad oes ysgol gynradd nag uwchradd dwyieithog yn Esquel, cynigir nifer o ddosbarthiadau Cymraeg i'r plant lleiaf a'r rhai hŷn yng Nghanolfan Hazel Charles Evans yn y dref, yn ogystal â sawl dosbarth Cymraeg i Oedolion. Mae'n dda deall hefyd bod y gweithdai Cymraeg o dan ofal Diana Jenkins yn Ysgol 24 (Sbaeneg ei hiaith) yn Esquel yn mynd o nerth i nerth.

Fel yng Nghymru, mae nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i'r dosbarthiadau lefelau uwch yn y Wladfa (lefel Canolradd ymlaen) yn parhau ychydig yn siomedig. Ni welir y niferoedd iachus sydd ar lefel Mynediad a Sylfaen yn symud ymlaen i lefelau Canolradd, Uwch a Meistroli. Er hyn, mae  llygedyn o obaith y bydd cynnydd yn y sector yma yn y dyfodol yn y Gaiman a'r Andes yn benodol.

Yn raddol, mae cyrsiau newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cael eu cyflwyno i ddosbarthiadau Cymraeg Chubut, a'r gobaith yw y bydd y cyrsiau lliwgar ac apelgar yma yn denu mwy o ddysgwyr i'r dosbarthiadau ac yn eu hannog i barhau i astudio am gyfnodau hirach ac i barhau i'r lefelau uwch.



**Diana Jenkins, un o diwtoriaid lleol yr Andes gydag un o ddosbarthiadau lefel Mynediad yn y Ganolfan yn Esquel**

**Nifer o oriau cyswllt Cymraeg fesul lefel yn y dalgylchoedd - oriau 2018 mewn cromfachau**

| | Meithrin (o dan 5 oed) | CA1 (6-8 oed) | CA2 (9-11 oed) | Arddegau | Oedolion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | **94 awr 40 mun**<br><br>(93 awr 5 mun) | **40 awr 50 mun**<br><br>52 awr 40 mun) | **33 awr 40 mun**<br><br>(10 awr 15 mun) | **33 awr 50 mun**<br><br>(26 awr 45 mun) | **12 awr 15 mun**<br><br>(17 awr 45 mun) | **215 awr 15 mun**<br><br>(200.40) |
| **Trelew** | **33.5**<br><br>(75) | **41**<br><br>(72 awr 30 mun) | **32**<br><br>(32) | **0**<br><br>(1 awr 30 mun) | **33 awr 50 mun**<br><br>(20 awr 45 mun | **140 awr 25 mun**<br><br>(201 awr 45 mun) |
| **Yr Andes** | **40 awr 40 mun**<br><br>(52.5) | **31 awr 30 mun**<br><br>(24) | **6 awr**<br><br>(3) | **0**<br><br>(1.5) | **23 awr 30 mun**<br><br>(22) | **101 awr 45 mun**<br><br>(103) |
| **Cyfanswm** | **168 awr 50 mun**<br><br>(220 awr 40 mun) | **113 awr 20 mun**<br><br>(149 awr 10 mun) | **71 awr 40 mun**<br><br>(45 awr 15 mun) | **33 awr 50 mun**<br><br>(29 awr 45 mun) | **69 awr 35 mun**<br><br>(60 awr 25 mun) | **457 awr 15 mun**<br><br>(505 awr 10 mun) |

Mae oriau cyswllt yr ysgolion dwyieithog yn parhau'n weddol gyson ar draws y dalaith ond da yw cael nodi cynnydd yn oriau CA1 A CA2 yr Andes. Mae hyn yn adlewyrchu twf yn nosbarthiadau Ysgol y Cwm.

Mae'r cynnydd yn oriau'r adegau yn y Gaiman yn dangos y gwaith da a chyson gyda'r dosbarthiadau Cymraeg yng Ngholeg Camwy ac ysgol Aliwen y Gaiman (ysgolion uwchradd).

Mae'n braf gweld cynnydd yn oriau'r dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn Nhrelew eleni hefyd mae hyn yn adlewyrchu'r ehangu a fu yn y ddarpariaeth ar sawl lefel gan gynnwys sefydlu dosbarthiadau newydd yno yn ystod y flwyddyn.

Gwelir yn y tabl uchod bod gostyngiad sylweddol wedi bod yng nghyfanswm oriau cyswllt Meithrin a CA1 yn Nhrelew. Y rheswm am hyn yw y bu newid yn y modd y cofnodir yr oriau.



**Ana Chiabrando Rees a Romina Herrera (ar eu traed), dwy o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion Trelew**



**Geraint Ashton, Swyddog Dysgu'r Cynllun yn Nyffryn Camwy 2019 yn dysgu dosbarth Cymraeg newydd i Oedolion yn adeilad Dewi Sant, Trelew**

**Arholiadau CBAC**

Diolch i gydweithrediad adran arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC, mae myfyrwyr y Wladfa yn gallu manteisio ar y cyfle i sefyll yr arholiadau yma yn flynyddol ac mae'n braf nodi bod 23 o fyfyrwyr Patagonia wedi ymgeisio eto eleni.

Wrth gynnig y posibilrwydd o weithio tuag at sefyll arholiad CBAC Cymraeg i Oedolion mae'n cynnig pwrpas a statws i'r dysgu, mewn cymdeithas ble mae pobl yn rhoi llawer o bwyslais ar y 'First Certificate' yn Saesneg. Mae'n dda felly gallu cynnig arholiadau iaith safonol o fewn fframwaith Ewrop er mwyn cael prawf o'r lefel maent wedi'i gyrraedd a'r hyn maent wedi'i gyflawni.

Dyma'r ffigyrau am eleni.

Teg nodi - fel yn 2018 – mai dim ond myfyrwyr o Ddyffryn Camwy a ymgeisiodd yn 2019.

| ***Lefel*** | ***Wedi cofrestru*** | ***Wedi sefyll*** | ***Pasio*** | ***Methu*** |
|---|---|---|---|---|
| ***MYNEDIAD*** | *23* | *12* | *11* | *1* |
| ***SYLFAEN*** | *11* | *8* | *8*<br>*6 Llwyddo*<br>*2 Rhagoriaeth* | *0* |
| ***CANOLRADD*** | *2* | *2* | *2* | *0* |
| ***UWCH*** | *1* | *1* | *1* | *0* |

**Adroddiad Clare Vaughan, cydlynydd Dysgu Cynllun Cymraeg Patagonia.**

Mae'r cwestiwn yn codi'n lled aml. Ydy Cynllun Cymraeg y Wladfa wedi bod yn llwyddiant?

Does dim amheuaeth bod y dystiolaeth ar hyd y blynyddoedd yn cadarnhau'n ddiamheuol bod y Cynllun yn, ac wedi llwyddo. Does dim ots pa un o'r meini prawf a ddefnyddir, mae'r ateb bob tro yn ddigon cadarnhaol. Eleni eto, mae cyfanswm y dysgwyr wedi rhagori ar niferoedd 2018 ac mae'r nifer fwyaf erioed yn dysgu gyda'r Cynllun bellach.

O ran yr oriau cyswllt, mae nifer yr oriau ymhlith y mwyaf erioed yn hanes y Cynllun ac mae mwy o ddysgwyr yn cael cyflwyniad a mynediad at yr iaith bellach, naill ai drwy ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, yr ysgolion dwyieithog, Ysgolion y Dalaith neu drwy weithgareddau allgyrsiol.

Y cwestiwn nesaf wrth gwrs ydy, 'A fydd y Cynllun yn parhau i lwyddo?

Roedd amcanion blynyddoedd cynnar y Cynllun - wedi'u seilio ar waith ymchwil yr Athro Robert Owen Jones - ddigon clir; rhoi cyfleodd i ddisgynyddion y Cymry gwreiddiol i ailgysylltu gyda'u gwreiddiau, eu diwylliant a'u hiaith.

Mae natur cymdeithas wedi newid yn sylweddol ers yr astudiaethau gwreiddiol a does dim byd yn aros yn ei unfan. Mae'r cymunedau wedi dod yn fwy amlddiwylliannol, mae syniad o ymfudo wedi dod yn rhan o batrwm bywyd ac mae ffactorau economaidd wedi ychwanegu at y pwysau ar y cymunedau. Yn yr un modd, mae cyfathrebu byd-eang wedi dod â manteision ac anfanteision yn ei sgil.

Mae'n rhaid talu teyrnged i'r bobl hynny ar draws talaith Chubut sydd wedi bod yn gweithio'n ddiflino am saw blwyddyn i sefydlu, cynnal ac ariannu'r ysgolion dwyieithog a agorwyd yn sgil y Cynllun Cymraeg.

Does dim amheuaeth bod yr ysgolion wedi llwyddo, ond mae angen parhau i’w cefnogi ac un o’r meysydd sydd angen ei gryfhau ydy hyfforddiant athrawon.  Mae dysgu ail iaith i ddisgyblion ac oedolion yn waith arbenigol iawn, yn arbennig mewn cymdeithas sydd yn ôl sawl mesur yn weddol unffurf o ran iaith a diwylliant. Gwan iawn hefyd ydy’r ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd fel cysyniad. Byddai cymorth arbenigol yn y meysydd hyn yn ddefnyddiol dros ben er mwyn gwella ansawdd y dysgu a’r addysgu.

Oherwydd y wasgfa economaidd yn yr Ariannin yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae’n cynyddol anodd i lywodraeth talaith Chubut gynnal y gwasanaeth addysg yn yr iaith Sbaeneg, heb sôn am gynnig adnoddau ychwanegol i ddysgu ail iaith. Hyd nes bydd y sefyllfa yn y wlad yn gwella felly, bydd trigolion Chubut yn parhau i edrych at Gymru am gymorth arbenigol gyda dysgu’r Gymraeg.

Mae’r ysgoloriaethau i ddysgwyr i deithio i Gymru i astudio ar gyrsiau Cymraeg wedi bod yn rhan bwysig o’r Cynllun ers y dechrau,  ac roedd yn braf gweld cynifer yn ymgeisio am ysgoloriaethau 2020. Gan mai dim ond tair ysgoloriaeth sydd ar gael, roedd y gystadleuaeth yn amlwg yn frwd.

Byddai’n wych ceisio cael mwy o fynd a dod rhwng y ddwy gymuned yng Nghymru ac yn y Wladfa:  roedd gweld ymateb y plant bach i ymweliad y clocswyr o Gymru yn ystod gaeaf 2019 yn ysbrydoliaeth.

Mae bodolaeth y Cynllun yn wyrthiol ar ôl dros 20 mlynedd ac mae ei lwyddiant wedi bod yn aruthrol.  Trwy ddal ymlaen i’w gefnogi bydd pontydd yn cael eu hadeiladu rhwng y famwlad yng Nghymru a’r Ariannin am amser i ddod.

**Clare Vaughan,  Cydlynydd Dysgu’r Cynllun Cymraeg, Trevelin, Rhagfyr 2019**



***Ana Chiabrando Rees a Romina Herrera, dwy o diwtoriaith Cymraeg i Oedolion Trelew gyda dosbarth Canolradd***

## *SEFYDLIADAU ADDYSGOL PATAGONIA*

***Coleg Camwy y Gaiman*** *(ysgol uwchradd)*



**Coleg Camwy, y Gaiman**

Sefydlwyd Coleg Camwy fel 'Ysgol Ganolraddol' yn 1906 a hi oedd yr ysgol uwchradd gyntaf yn y Wladfa. Y gred gyffredinol yw mai hi oedd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf i'w sefydlu yn y byd.

Mae'r Ysgol yn derbyn plant sydd wedi bod yn mynychu'r ysgolion dwyieithog yn y Gaiman a Threlew ac yn cynnig darpariaeth ar ddwy lefel. Mae'r dosbarthiadau Blwyddyn 1, 2 a 3 o dan ofal Caren Jones a Gabriel Restucha, ac mae'r plant mwyaf rhugl yn cael gwersi ymestynnol gan Esyllt Nest Roberts. Yn ystod 2019 bu Geraint Ashton, Swyddog Dysgu'r Cynllun Cymraeg yn Nyffryn Camwy hefyd yn cynorthwyo gyda'r dosbarthiadau gloywi iaith.




***Gabriel Restucha yn dysgu dosbarth Cymraeg Blwyddyn 3 Coleg Camwy, y Caiman***

Yng Ngholeg Camwy, mae’r Gymraeg yn orfodol yn ystod Blwyddyn 1, 2 a 3 ac yn ddewisol yn y tair blwyddyn olaf. Yn 2019, dewisodd 90 o bobl ifanc astudio’r Gymraeg ym mlynyddoedd 4, 5 a 6.

Bydd 49 o blant yn dechrau ym mlwyddyn 1 Coleg Camwy yn 2020; bydd 9 ohonynt yn dod o Ysgol yr Hendre Trelew. Gan nad yw Ysgol Gymraeg y Gaiman wedi cyrraedd ei llawn dwf eto, bydd rhaid aros tan 2021 cyn bydd plant o Ysgol Gymraeg y Gaiman yn dechrau mynychu.



**Caren Jones yn dysgu dosbarth Cymraeg yng Ngholeg Camwy**



**Esyllt Nest Roberts gyda gwersi estynedig yn y Gymraeg yng Ngholeg Camwy**

# YSGOLION CYNRADD DWYIEITHOG Y WLADFA

Mae tair ysgol gynradd ddwyieithog bellach ym Mhatagonia; Ysgol yr Hendre, Trelew, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol y Cwm yn Nhrevelin Mae'r ysgolion yn cynnig addysg o safon uchel ac mae'r  staff yn frwdfrydig a gweithgar, yn gweithio o dan amgylchiadau economaidd heriol eto yn ystod 2019.

**Ysgol Gymraeg y Gaiman**




Dechreuodd Ysgol Gymraeg y Gaiman fel Ysgol  Feithrin ym 1993.

Cymaint bu'r cynnydd yn y galw am addysg ddwyieithog gynradd fel y'i hagorwyd fel Ysgol Gymraeg y Gaiman yn 2013.



**Angélica Evans  gyda rhai o blant Ysgol Gymraeg y Gaiman**

**Adroddiad Rebeca White ac Esyllt Nest Roberts: Cefndir.** Sefydlwyd Ysgol Feithrin y Gaiman (YGYG) yn 1993 fel ysgol feithrin Gymraeg ei hiaith a oedd yn cynnig 'gweithdai' Cymraeg answyddogol i blant bach. Yn 2013, derbyniodd yr ysgol statws swyddogol fel Ysgol Feithrin gan lywodraeth y dalaith ac ers hynny rydym wedi gallu darparu addysg swyddogol i blant 4 a 5 oed (oedran gorfodol i ddechrau mynychu ysgol yr Ariannin) ac i fabanod 1½-3 oed. Yn 2019, roedd gennym hyd at flwyddyn 5 ac felly yn 2020 bydd yr ysgol yn gyflawn am y tro cyntaf. Ers 2014 cawsom ganiatâd swyddogol i ddarparu addysg gynradd ddwyieithog hefyd.

**Staff.** Mae 21 o athrawon yn gweithio yn yr ysgol, sef yr athrawon dyddiol ac athrawon arbenigol (cerddoriaeth, ymarfer corff, coginio, dawnsio gwerin a chelf). O ganlyniad i dderbyn y statws swyddogol a nodwyd uchod, daeth yn orfodol cael athrawon meithrin a chynradd cymwysedig i ddysgu yn yr ysgol. Rhennir gwaith Ysgol Gymraeg y Gaiman yn ddwy sesiwn. Gweler isod fanylion y dosbarthiadau a'r niferoedd yn 2019.

**Bore:**

Dosbarth Babanod (1½ a 2 oed): 13 disgybl, 1 athrawes

Dosbarth 3 oed – 15 disgybl, 1 athrawes

Dosbarth 4 oed – 20 disgybl, 1 athrawes

Dosbarth 5 oed – 16 disgybl, 1 athrawes

Blwyddyn 1 – 22 disgybl, 1 athrawes

Blwyddyn 2 – 10 disgybl, 1 athrawes

Blwyddyn 3 – 18 disgybl, 1 athrawes

Blwyddyn 4 – 14 disgybl, 1 athrawes

Blwyddyn 5 – 9 disgybl, 1 athrawes

**Prynhawn:**

Dosbarth Abertawe (Dosbarth 5 oed) – 18 disgybl, 1 athrawes Gymraeg yn unig

Dosbarth Llanelli – 14 disgybl, 1 athrawes Gymraeg

Dosbarth Pwllheli – 12 disgybl, 1 athrawes Gymraeg

Dosbarth Tregaron – 12 disgybl, 1 athrawes Gymraeg

Dosbarth Betws-y-Coed – 11 disgybl, 1 athro Cymraeg

Dosbarth Caernarfon – 14 disgybl, 1 athro Cymraeg

Dosbarth Caerffili – 10 disgybl, 1 athro Cymraeg

Mae presenoldeb athrawon Sbaeneg eu hiaith yn ystod y boreau yn cynnig her inni, ond yr ydym yn ffodus iawn eu bod nhw'n athrawon cefnogol ac awyddus i ddysgu ychydig o Gymraeg i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac er mwyn annog y plant i ddefnyddio'r iaith yn y dosbarth.

Mae Geraint Ashton, Swyddog Dysgu'r Cynllun yn y Dyffryn eleni wedi gwneud gwaith gwerthfawr iawn yn dysgu'r athrawon di-gymraeg a'r staff atodol (cegin, glanhau) ac mae wedi paratoi nodiadau er mwyn sicrhau parhad y gwaith yn ystod 2020. Braf fyddai meddwl y gallai rhai o'r athrawon ymroddedig hyn gael ysgoloriaeth i astudio ar gwrs dwys yng Nghymru yn y dyfodol, gan mai prin iawn yw'r amser sydd ganddynt i astudio yma am eu bod yn gweithio mewn ysgolion eraill yn y prynhawniau ar ôl bod yn gweithio yn YGYG.

Dim ond addysg Gymraeg sy'n cael ei chynnig i'r dosbarthiadau yn y prynhawn. Er mai dwy awr yn unig a gânt, mae'n rhyfeddol gystal y mae'r plant yn ymateb. Maent yn gwybod mai dim ond y Gymraeg y dylid ei siarad efo'r athrawon gan mai dim ond y Gymraeg a ddefnyddia'r athrawon gyda nhw. Rhaid cofio na dderbyniodd nifer y plant oedran cynradd eu haddysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg felly maent wedi dysgu'r cyfan o'u Cymraeg yn yr ysgol gynradd gyda ni. Dengys hyn lwyddiant trochi.



**Rebeca White, Pennaeth Ysgol Gymraeg y Gaiman gyda'r dosbarth trochi**

**Defnydd cyffredinol o'r Gymraeg:** Ar wahân i'r gwersi eu hunain, yr ydym yn gweithio'n barhaus i gyflwyno'r Gymraeg yn weledol yn yr ysgol drwy osod posteri ac arwyddion a geirfa ar y waliau, e.e. mae gan nifer o'r dosbarthiadau arwyddion 'gair y dydd/wythnos' i ehangu geirfa; 'brawddeg yr wythnos' yn y neuadd i'r ysgol gyfan a.y.b. Mewn sefyllfaoedd anffurfiol rydym yn annog yr athrawon di-gymraeg i ddefnyddio adnoddau Cymraeg yn unig (CDiau, DVDs, gemau a llyfrau) ac i gyfarch a gostwng y faner, dweud newyddion a.y.b. yn y Gymraeg.

Yn yr un modd yr ydym yn credu ei bod yn hynod bwysig dangos presenoldeb mewn gweithgareddau lleol yn y gymdeithas, e.e. cymryd rhan mewn eisteddfodau a chyngherddau, gorymdeithio mewn defodau swyddogol, cynnal stondinau yn y ffair lyfrau a'r ffair amaethyddol, anfon a derbyn gwahoddiadau i weithgareddau ar y cyd gydag ysgolion lleol eraill a.y.b., gan wneud yn siŵr fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth yn yr holl weithgareddau hyn.

**Hyfforddi staff:** Fel y crybwyllwyd eisoes mae'n hanfodol fod y gwaith da a wna Geraint Ashton i ddysgu Cymraeg i'r staff di-gymraeg yn parhau. O ran datblygiad y staff Cymraeg eu hiaith bresennol, credwn yn gryf y byddai derbyn hyfforddiant gan arbenigwyr mewn 'trochi' ieithyddol ac addysgu drwy ail-iaith yn fanteisiol iawn. Yr ydym wedi gwneud defnydd cyson o'r cynllun Tric a Chlic arloesol yn yr ysgol hefyd er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd ein disgyblion. Byddai'n werthfawr derbyn hyfforddiant ar gyfer rhagor o adnoddau penodol o'r fath hefyd.

Yr ydym ni, fel y ddwy ysgol ddwyieithog arall yn nhalaith Chubut, yn credu y byddai'n fuddiol iawn petai'r Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa yn medru gyrru athrawon cynradd Cymraeg cymwysedig i weithio'n benodol yn ein hysgolion dwyieithog. Mae presenoldeb athrawon di-Sbaeneg yn hanfodol i lwyddiant ein hysgolion, fel y gwyddom o brofiad.



**Rhai o ddisgyblion Ysgol Gymraeg y Gaiman**

**Y Dyfodol:** Her y flwyddyn nesaf inni fydd ymdopi â nifer y disgyblion fydd yn yr ysgol gan ein bod ni bron â bod yn llawn. Mae'n rhaid inni ddarparu gwersi o safon sy'n trochi'r disgyblion yn y Gymraeg ond ni fydd yn bosib cyflawni hyn gyda chymaint o ddisgyblion yn ein gwersi.

Yn anffodus, rydym yn rhagweld bydd prinder o athrawon ar gael yn yr ysgol i fedru cyflawni'r nod o drochi'n llwyddiannus yn y prynhawniau oherwydd maint y dosbarthiadau. Teimlwn ei bod hi'n bwysig cadw'r gwersi Cymraeg gyda'i gilydd yn y prynhawniau er mwyn trochi'r dosbarthiadau i gyd yr un amser a gosod naws 'Gymraeg' ar draws yr ysgol.

Mae'n rhaid inni fel staff Cymraeg barhau i godi safonau'r iaith ar draws yr ysgol ac er mwyn gwneud hyn byddwn ni'n parhau i ddibynnu ar y gefnogaeth gan y Cynllun fel sydd wedi gweithio yn y gorffennol ac eto eleni. Mae bellach wedi mynd yn anos ateb y galw am addysg Gymraeg, sydd yn tyfu yn y dalaith, gan y bydd nifer yr athrawon yn yr ysgol yn llai y flwyddyn nesaf.

Diolch i Glwb Rygbi'r Ddraig Goch, llwyddom ni i gyflogi dau athro o Gymru eleni, un athro llawn amser yn yr ysgol, ac un sydd yn rhannu ei waith rhwng yr ysgol (gweithio gyda dosbarth Caernarfon yn y prynhawniau ac yn cynnal sesiynau eraill bob dydd Mawrth) a hanner ei amserlen yn y Clwb. Yn sgil cyllid yr ysgol, ni fydd hyn yn bosib y flwyddyn nesaf.

Fel y gwelwch felly, yr ydym yn parhau i weithio'n ddiflino i sicrhau parhad y Gymraeg yn y Gaiman ac yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Prydeinig, Cymdeithas Cymru-Ariannin, Llywodraeth Cymru a chyfeillion eraill am bob cefnogaeth i sicrhau ein bod yn llwyddo.

**Adroddiad gan Rebeca White (Pennaeth Ysgol Gymraeg y Gaiman) ac Esyllt Nest Roberts (Athrawes Gymraeg yn Ysgol Gymraeg y Gaiman)**




**Gwers ymafer corf trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r athrawes Florencia Zaldegüi**

**Ysgol y Cwm, Trevelin**



**Adeilad Ysgol y Cwm, Trevelin**

**Adroddiad Ysgol y Cwm Rhagfyr 2019 gan Clare Vaughan**

Mae’r gwaith sydd yn cael ei wneud yn Ysgol y Cwm yn ddilyniant naturiol o waith y Cynllun Dysgu Cymraeg sydd wedi bod yn digwydd mewn modd swyddogol yn yr Andes ac ym mhentref Trevelin ers 1997. Agorwyd drysau'r ysgol yn 2016 ac ers hynny mae grŵp ymroddedig wedi ymroi i ddarparu addysg ddwyieithog Cymraeg/ Sbaeneg i blant meithrin a chynradd mewn adeilad newydd sbon sydd wedi’i gynllunio’n unswydd gan bensaer ar gyfer lleoli dosbarthiadau plant mewn pentref wrth droed yr Andes yn Nhalaith Chubut, a hynny heb gefnogaeth y llywodraeth leol. Y Gymdeithas Gymraeg lleol sydd wedi rhoi’r arian ar gyfer yr adeiladu a Phwyllgor yr ysgol sydd yn gyfrifol am ddod o hyd i’r arian i angenrheidiol i gynnal yr ysgol.

**Hanes cryno yr ysgol**

Agorwyd yr ysgol yn swyddogol Mawrth 9fed 2016 a dechreuodd 50 o blant rhwng 3 a 6 oed fynychu ysgol feithrin.

Erbyn heddiw, mae’r adeilad bron wedi gorffen er bod angen rhai manylion fel gwteri a pheintio a garddio ac adeiladu mynedfa concrit, pethau bydd rhaid i bwyllgor yr ysgol dalu amdanynt.

Mae gwaith Meithrin yn y prynhawn yn integreiddiedig gyda chynorthwyydd iaith yn y dosbarth am oriau cyntaf y prynhawn yn gweithio ar y cyd gyda’r athrawes feithrin sydd wedi derbyn hyfforddiant o dan system yr Ariannin (gan fod ni yn ysgol swyddogol ac yn system y Dalaith rhaid bod athrawes Sbaeneg i bob dosbarth). Rydym yn gweithio gyda themâu a bob mis mae thema newydd. Mae pob diwrnod dysgu yn dechrau gydag Amser Cylch lle bydd y disgyblion yn codi baneri yr Ariannin a Chymru ac yn canu yn y ddwy iaith.



**Yr estyniad newydd yng nghefn adeilad Ysgol y Cwm**

Erbyn hyn mae Blwyddyn 1, 2 a 3 yn cael bore estynedig, gydag awr a hanner o Gymraeg ychwanegol a cheisiwn fanteisio ar wersi cerddoriaeth a dawnsio gwerin fel ffordd o gael mwy o Gymraeg achlysurol i mewn i'r cwricwlwm. Bu Judith Jones athrawes dosbarth Blwyddyn 2 yn ddigon ffodus i ennill un o ysgoloriaethau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i fynd i Gymru i astudio ar gwrs dwys a'r gobaith ydy bydd hi yn gallu ehangu faint o Gymraeg mae hi'n ei ddefnyddio yn y dosbarth efo'r plant.



***Jessica Jones gyda rhai o ddisgyblion adran feithrin Ysgol y Cwm***

Mae Jessica Jones a Ximena Roberts o'r Ariannin yn gweithio gyda phlant 3, 4 a 5 oed tra bod Nia Jones (oedd yn Swyddog o dan y Cynllun yn 2015 a 2016) wedi aros yn yr ardal, yn gweithio gyda'r plant cynradd i gyd bob bore. Mae Gruffydd Evans ein swyddog trwy'r Cynllun Dysgu Cymraeg eleni wedi bod yn cynorthwyo efo'r plant cynradd hefyd sydd wedi galluogi Nia i fod yn fwy creadigol ac i rannu'r plant yn ôl eu gallu er mwyn canolbwyntio ar sgiliau arbennig. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn roedd swyddog y Cynllun Menter Sinead Harris wedi cynllunio rhai gweithgareddau ychwanegol fel coginio i'r plant.

Rhaid pwysleisio pa mor ffodus rydym wedi bod eleni i gael presenoldeb dwy wirfoddolwraig; Manon Lewis a fu gyda ni tan wyliau'r gaeaf ym mis Gorffennaf a Margo Martin o fis  Medi tan ddiwedd y tymor. Roedd Manon ar flwyddyn allan cyn mynd i'r brifysgol a Margo yn ei blwyddyn allan fel rhan o'i gradd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Sbaeneg.  Er bod y ddwy yn wahanol o ran oedran a sgiliau, daeth y ddwy â llawer o frwdfrydedd ac roeddynt yn fodlon cyfrannu at bob gweithgaredd.  Fyddai profiadau'r plant ddim wedi bod mor gyfoethog oni bai am gyfraniadau'r ddwy yma, felly rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.

Bydd mwy o blant yn mynychu eto yn 2020 a rhaid sicrhau bod yr adnoddau ar gael er mwyn darparu addysg o safon uchel yn ddwy iaith fydd yn cadw iaith a holl draddodiadau'r mewnfudwyr cyntaf er mwyn eu diogelu i'r dyfodol.


| Dosbarth | Athrawes Sbaeneg | Cymraeg | Nifer o blant |
|---|---|---|---|
| 3 oed | Jessica Hopkins | Jessica Jones | 15 |
| 4 oed | Evangelina Davies | Ximena Roberts | 12 |
| 5 oed | Daniela Limache | Ximena Roberts | 19 |
| Blwyddyn 1 | Claudia Mazziotti | Nia Jones/Gruffydd Evans | 17 |
| Blwyddyn 2 | Judith Jones | Nia Jones/Gruffydd Evans | 18 |
| Blwyddyn 3 | Laura Barrera | Nia Jones/Gruffydd Evans | 13 |
| **Cyfanswm** | | | **94** |



**Gruffydd Evans, Swyddog y Cynllun yn yr Andes gyda disgyblion Blwyddyn 1 Ysgol y Cwm**

**Staff Ysgol y Cwm 2019**

| Enw | Rôl | Telir gan |
|---|---|---|
| Erica Hammond | Prifathrawes Ysgol Feithrin | Ar gyfnod o sabothol di-dâl Ebrill – Tachwedd 2018 |
| Claudia Mazziotti | Prifathrawes Cynradd<br>Priathrawes Ysgol Feithrin dros-dro<br>Athrawes Sbaeneg Blwyddyn 1 | 100% Ysgol y Cwm |
| Margarita Green | Ysgrifenyddes | 100% Ysgol y Cwm |
| Jessica Hopkins | Athrawes Plant 3 oed Sbaeneg | 100% Ysgol y Cwm |
| Jessica Jones | Athrawes Gymraeg Plant 3 oed | 50% Llywodraeth<br>25% Ysgol y Cwm<br>25% oriau'r Cynllun |
| Evangelina Davies | Athrawes Plant 4 oed | 100% Ysgol y Cwm |
| Ximena Roberts | Athrawes Gymraeg Plant 4 oed | 65% Llywodraeth<br>35% Cynllun |
| Daniela Limache | Athrawes Sbaeneg Plant 5 oed | 100% Ysgol y Cwm |
| Nia Jones | Athrawes Gymraeg Plant Cynradd | 50% Ysgol y Cwm<br>50% Cynllun |
| Claudia Mazziotti | Athrawes Sbaeneg Blwyddyn 1 | 100% Ysgol y Cwm |
| Judith Jones | Athrawes Sbaeneg Blwyddyn 2 | 100% Ysgol y Cwm |
| Laura Barrera | Athrawes Sbaeneg Blwyddyn 3 | 100% Ysgol y Cwm |
| Maria de Oro | Cerddoriaeth | 100% Ysgol y Cwm |
| Camila Itxassa | Ymarfer Corff | 100% Ysgol y Cwm |
| Lihuen | Cynorthwywraig Anghenion Arbennig i fachgen ADHD | 100% Llywodraeth (ychydig o oriau) |
| Silvia Roa | Gofalwraig | 100% Ysgol y Cwm |
| Nancy Cardenas | Gofalwraig | 50% Ysgol y Cwm<br>50% cyngor y dref |





**Ximena Roberts a'r wirfoddolwraig Margo Martin gyda dosbarth plant 4 oed Ysgol y Cwm**

Yn 2020 bydd yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd wedi eu huno ac felly un Pennaeth fydd eisiau. Erica Hammond fydd yn gyfrifol am y ddwy lefel a bydd Claudia Mazziotti yn athrawes ddosbarth.

**Clare Vaughan ar ran Ysgol y Cwm, Trevelin 2019**




**Rhai o ddisgyblion Ysgol y Cwm**

**Ysgol yr Hendre, Trelew**



**Adroddiad Ana Chiabrando Rees**

22 o ddisgyblion oedd yn Ysgol yr Hendre pan agorwyd yr ysgol yn wreiddiol nôl yn 2006 . Erbyn hyn mae dros gant o ddisgyblion, ac maent yn derbyn 3 awr a hanner o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddyddiol.

**Yr Ysgol Feithrin:**
Yn 2019, roedd 44 plentyn yn mynychu'r Feithrin.
Mae 3 athrawes feithrin:
1 sy'n siarad Cymraeg yn rhugl - Romina Herrera
1 sy'n siarad Cymraeg yn eithaf da - Mariel Jones
1 sydd newydd ddechrau mynychu'r dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn Nhrelew.



**Mariel Jones (yn penlinio ar y dde) ac Elmer MacDonald (ar ei thraed) gyda rhai o blant meithrin yr Hendre**

Mae 3 chynorthwyydd:  2 sy'n siarad Cymraeg yn rhugl - Elmer MacDonald a Norma Price
Mae'r llall ar fin graddio i fod yn athrawes feithrin.
Sesiynau dwyieithog yw polisi'r adran Feithrin -  mae un athrawes yn siarad Sbaeneg a'r llall yn siarad Cymraeg â'r plant.

Cynigir oriau estynedig i'r rhieni sydd angen gadael y plant ar ôl 12pm, hyd at 2 y pnawn. Norma Price sy'n gyfrifol am y sesiynau estynedig -  mae hi'n gwneud gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn ystod yr oriau yma. Mae 47 o blant wedi ymrestru ar gyfer y Feithrin yn 2020.

Meithrin 3 oed -10 plentyn

Meithrin 4 oed - 17 plentyn

Meithrin 5 oed - 17 plentyn



**Norma Price (yn eistedd yn y canol) gyda rhai o ddisgyblion adran feithrin yr Hendre**

**Ysgol Gynradd yr Hendre:**
Mae 100 plentyn yn yr ysgol gynradd eleni gyda thair athrawes yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:
Alcira Williams - Blwyddyn 3 yn y bore a Blwyddyn 4 yn y pnawn,
Edith Lizondo yn dysgu Blwyddyn 2 yn y bore
Romina Herrera - Blwyddyn 5 yn y pnawn.

Yn ystod 2019, cyflogodd yr ysgol dau athro o Gymru i weithio yn yr ysgol:
Rhidian Rees i ddysgu plant Blwyddyn 1 yn y bore a Blwyddyn 6 yn y pnawn a Siwan Evans fel athrawes cerddoriaeth a dawnsio gwerin.

Mae 97.5 awr yr wythnos yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol gynradd.

Cynradd - Cyfnod Allweddol 1 - 54 plentyn

Cynradd - Cyfnod Allweddol 2 -46 plentyn




**Prifathrawes Ysgol yr Hendre, Silvia Almeyra (yr ail o'r chwith) yn arwain dathliadau Gŵyl y Glaniad yr ysgol**





**Romina Herrera, un o athrawesau adran feithrin Ysgol yr Hendre**

# DYSGU'R GYMRAEG MEWN YSGOLION CYFRWNG SBAENEG.

Mae'r Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i dysgu mewn sawl ysgol cyfrwng Sbaeneg ar draws talaith Chubut.

**Yr Andes: Ysgol 24, Esquel**




Diana Jenkins sy'n gyfrifol am y gwersi Cymraeg yn Ysgol 24 yn Esquel ac yn ystod 2019, roedd Gruffydd Evans, Swyddog Datblygu'r Andes a Sinead Harris y Swyddog Menter yn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal gweithdai Cymraeg.

Mae'r gweithdai yn cynnwys elfennau o ddysgu iaith, themâu diwylliannol a dawnsio gwerin.



**Diana Jenkins gydag un o ddosbarthiadau Cymraeg Ysgol 24, Esquel**

**Dyffryn Camwy: Ysgol Aliwen**

Yn Nyffryn Camwy, mae ysgol uwchradd Aliwen yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg i flynyddoedd 1, 2 a 3 (blynyddoedd 7, 8 a 9 yng Nghymru) o dan ofal Gabriel Restucha a Caren Jones.



**Adeilad Ysgol Aliwen**



**Gabriel Restucha gydag un o ddosbarthiadau Cymraeg ysgol Aliwen**

**Ysgol gynradd Bryn Gwyn, Dyffryn Camwy**

Mae gwersi Cymraeg yn cael eu cynnal ar draws Ysgol Bryn Gwyn ac mae pob dosbarth yn derbyn un wers Gymraeg 40 munud o hyd yn wythnosol.  Er mai darpariaeth gymharol fach sydd yma, mae'r gwersi yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn ac yn mwynhau cefnogaeth yr athrawon a'r gymuned. Mae cynnal gwersi Cymraeg mewn ysgolion Sbaeneg eu hiaith yn elfen bwysig yn ieithyddol a diwylliannol.



C**eleste Filiponi sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Gynradd Bryn Gwyn**




**Rhai o ddisgyblion Ysgol Bryn Gwyn**

**Ysgol 100 y Gaiman**

Bu dosbarthiadau Cymraeg yn achlysurol yn ysgol Gynradd 100 y Gaiman dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2018, ail gydiwyd yn y gwersi Cymraeg diolch i haelioni adran Ddiwylliant Cyngor y Gaiman. Parhaodd y gwersi yn 2019 a Victoria Steinkamp, un a ddysgodd Gymraeg yn wreiddiol gyda'r Cynllun Cymraeg sydd wedi bod yn gyfrifol am ddysgu Cymraeg am oddeutu 8 awr yr wythnos. Mae'r Ysgol ei hun yn gefnogol iawn i'r cynllun ac rydym yn obeithiol y bydd y cynllun yn parhau yn ystod 2020.



***Virginia gyda rhai o ddisgyblion Ysgol 100 y Gaiman***



## DOSBARTHIADAU CYMRAEG PORTH MADRYN

Mae Canolfan Toschke, Canolfan Gymraeg Porth Madryn yn fwrlwm o weithgaredd bron drwy gydol y flwyddyn gyda gweithgareddau yn ymwneud â'r diwylliant Cymreig yn cael eu cynnal yn wythnosol, yn cynnwys gwersi coginio, dosbarthiadau dawnsio gwerin, gweithdai offerynnol a lleisiol yn ogystal â dosbarthiadau Cymraeg ar sawl lefel.

Lorena Peralta sy'n gyfrifol am gydlynu a dysgu'r gwersi Cymraeg yn y Ganolfan, a bu 2019 yn flwyddyn llawn prysurdeb unwaith eto.



**Canolfan Toschke, Porth Madryn**

Cynhelir y dosbarthiadau sawl gwaith yr wythnos yng Nghanolfan Toschke, a'r patrwm yw bod Swyddogion Datblygu'r Cynllun – Geraint Ashton a Sinead Harris eleni - yn cynorthwyo gyda'r dysgu a'r gweithgareddau yn fisol.



***Lorena Peralta (ar ei thraed wrth y bwrdd gwyn) gydag un o ddosbarth Cymraeg Porth Madryn***

Un o uchafbwyntiau mawr y flwyddyn yn Nyffryn Camwy ym mis Medi 2019 oedd rhoi cartref i Gynhadledd Ryngwladol ar gyfer gweithwyr ym maes Twristiaeth. Daeth cynrychiolwyr o bob rhan o'r byd yno, a bu rhai o ddawnswyr Cymdeithas Gymraeg Porth Madryn yn cynnal rhan o'r adloniant. Roedd Geraint Ashton, un o Swyddogion Datblygu'r Cynllun ynghyd â Lorena Peralta hefyd yn cynnal gwersi Cymraeg i'r cynrychiolwyr yn ystod y Gynhadledd. Roedd yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth am yr iaith a'r diwylliant yn y rhan yma'r byd i weithwyr o bedwar ban ym maes twristiaeth.




**Dawnswyr Cymdeithas Gymraeg Porth Madryn yn y Gynhadledd Ryngwladol i weithwyr ym maes Twristiaeth**



**Geraint Ashton a Lorena Peralta gyda gwers Gymraeg yn y Gynhadledd Ryngwladol**



**Cynrychiolwyr rhynglwadol yn y wers Gymraeg ym mis Medi 2019**

Mae’r gwaith a wneir gan y tiwtoriaid a’r athrawon lleol yn ogystal â Swyddogion Datblygu’r Cynllun yn yr ystafelloedd dosbarth yn bwysig iawn. Dyma pryd mae’r seiliau ieithyddol yn cael eu gosod mewn lle a’r camau cyntaf yn cael eu cymryd ar hyd y daith o ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Gan mai cyfrwng cyfathrebu yw iaith, mae angen creu cyd-destun a chyfleoedd i’w defnyddio a lleoliadau i’w siarad. Mae cyfraniad Swyddogion y Cynllun yn cymdeithasoli’r iaith yn y cymunedau yn waith pwysig dros ben, a byddai rhai yn dadlau ei fod mor bwysig â’r gwaith dosbarth.

Er mai bodoli mewn enw yn unig mae Menter Patagonia bellach, mae ysbryd a gweledigaeth y Fenter yn fyw ac yn iach.

Yn 2008, gosodwyd amcanion Menter Patagonia sef: Rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol i normaleiddio defnydd o’r iaith mewn trawstoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol - ymestyn ei defnydd cymdeithasol.

Dylid anelu at gynnal amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, achlysuron a gweithgareddau ar gyfer defnyddio’r Gymraeg.

Gellid awgrymu gweithgareddau fel a ganlyn:
Gweithgarwch ar gyfer plant meithrin a’u rhieni. Gallai hyn fod yn gyfle i ennyn diddordeb yn y rhieni a’u cael i ddosbarth Cymraeg - o leiaf un sesiwn yr wythnos.

Gweithgareddau ar gyfer plant cynradd - chwaraeon, crefftau, peintio a gwaith llaw, gemau, natur a’r amgylchedd, dawnsio gwerin, grŵp canu/ actio, grwpiau chwarae fore Sadwrn, clybiau gwyliau, hobïau ac ati (dwy haen oedran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos).

Gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol eilradd - Aelwyd yr Urdd, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau cymdeithasol (dwy sesiwn yr wythnos os yn bosibl).

Gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer oedolion - cwis, sioe ffasiwn, coginio, blasu gwahanol fathau o fwyd, grwpiau trafod neu ddadlau, grwpiau sgwrsio, grwpiau gwahanol hobïau, gwersi cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr, clybiau cerdded, seiclo, mynydda, sgïo, clwb cinio, nosweithiau llawen, sgyrsiau a darlithoedd, dawnsio gwerin, picnic, gwibdeithiau, nosweithiau ffilmiau ac ati.

Gweithio’n glos â mudiadau lleol Cymreig i’w hysbrydoli - megis yr eisteddfod, cyrddau cystadleuol, y capeli.
Ceisio ymestyn defnydd gweledol o’r Gymraeg yn lleol - y radio, yr amgueddfeydd ac ati.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y patrwm oedd bod y Swyddogion Datblygu yn rhannu eu hamser rhwng y gwaith dysgu a'r gwaith Menter.

Yn 2019, penderfynwyd cyflogi un person a fyddai'n gyfrifol am waith cymdeithasoli iaith yn llawn amser. Un o gyn swyddogion Datblygu'r Urdd, Sinead Harris a dderbyniodd yr her o fynd i'r Wladfa i weithredu fel Swyddog Datblygu Menter y Cynllun Cymraeg. Rhannodd Sinead y flwyddyn yn ddwy ran - y pum mis cyntaf yn yr Andes a'r ail gyfnod yn Nyffryn Camwy.
Diolch i haelioni Gymdeithas Gymru-Ariannin am gyfrannu'r cyllid angenrheidiol ar gyfer cefnogi gwaith Sinead yn ystod y flwyddyn. Heb y cyllid pwysig hwn, nid fyddai wedi bod yn bosib cyflawni'r gwaith Menter yn ystod 2019.

## *Digwyddiadau Menter Patagonia yn Nyffryn Camwy*

**Pigion o adroddiad Sinead Harris – Swyddog Menter y Cynllun**



**Sinead Harris (mewn gwisg lwyd yn y cefn), Swyddog Menter y Cynllun yn arwain un o weithgareddau cymdeithasol Trelew**

Mae´r deg mis diwethaf wedi bod llawn hwyl a sbri a braint yw hi i mi allu trefnu digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn. Mae´r gweithgareddau yn gyfle i dangos yn glir i bobl nad dim ond iaith dosbarth yw´r Gymraeg. Yn hytrach mae hi´n iaith bob dydd ac yn iaith cymdeithasu. Mae´r nosweithiau amrywiol yma felly wedi bod yn gyfle i bawb brofi'r Gymraeg tu hwnt i´r dosbarth pa bynnag lefel ydyn nhw. Boed yn ddi-gymraeg neu'n siaradwyr rhugl, trefnwyd bod digwyddiad i bawb a chyfle i bawb ymarfer a mwynhau. Yn amlwg mae niferoedd wedi amrywio yn ddibynnol ar ffactorau allanol ond mae bob un wedi digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg gyda phobl yn cael cyfle i ymarfer.

Nid yn unig yr oeddwn yn rhan o drefnu digwyddiadau achlysurol ond roeddwn yn cynnal pethau yn wythnosol. Dyma drosolwg o fy ngwaith wythnosol ynghyd a lluniau pwrpasol.

**Yr Andes: Ysgol y Cwm**

Roeddwn yn gweithio yn Ysgol y cwm Trevelin bedair gwaith yr wythnos - dau fore'r wythnos gyda´r plant cynradd a dau brynhawn yr wythnos gyda´r plant meithrin. Yn ystod y sesiynau gyda´r plant cynradd roeddwn yn gweithio ar y cyd gyda Nia Jones, Judith Jones, Gruffydd a Marga Martin i gyflwyno sesiynau Cymraeg hwylus i´r plant. Fe wnes i sesiynau stori, sesiynau gemau a sesiynau coginio - gyda choginio pitsas bach yn uchafbwynt y sesiynau i bawb! Fe oedd hwn hefyd yn gyfle i ategu gwaith caled Jessica, Ximena a gweddill yr athrawon meithrin.



**Gyda plant Blwyddyn 3 Ysgol y Cwm**



**Dathlu Parti Piws mwyaf y byd. Dewin a Doti – cymeriadau Mudiad Meithrin yn troi yn 10.**



**Sesiwn celf gyda phlant Bl 2 Ysgol y Cwm**

**Dosbarthiadau plant Trevelin/Esquel**

Roeddwn yn gweithio ar y cyd gyda Gruffydd Evans a Marina Cid i gynorthwyo yn y gwersi yma. Yn Esquel mynychais ddosbarth plant unwaith yr wythnos ar fore dydd Mercher. Marina Cid sydd yn dysgu'r plant fan hyn ac yn gwneud gwaith arbennig o dda gyda nhw. Mae gwahaniaeth mawr rhwng y gallu yn y dosbarth yma felly roedd cael help ychwanegol yn ddefnyddiol iawn.



**Coginio gyda plant Meithrin Ysgol y Cwm**

**Digwyddiadau achlysurol**

Rhan annatod o'r swydd Menter yn amlwg oedd cynnal pethau tu hwnt i´r ystafell ddosbarth. Trwy wneud pethau amrywiol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn dw i´n gobeithio´n fawr iawn fy mod wedi dangos i amryw o oedrannau fod modd cael hwyl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ddechrau fy amser yng Nghwm Hyfryd fe wnes i gynnal dwy noswaith groeso. Yn ystod y sesiynau yma fe oeddwn yn medru cwrdd â nifer o bobl a dod i´w adnabod. Roedd hwn yn ddefnyddiol er mwyn gallu gweld pa fath o bethau fyddai'n gweithio yn ystod fy amser. Fe wnes i chwarae nifer o gemau amrywiol yn y sesiynau yma hefyd er mwyn cael pawb i siarad.

Nid yn unig roedd siaradwyr rhugl wedi mynychu ond yn y digwyddiad yn Nhrevelin fe oedd dechreuwyr pur wedi mynychu. Fe oedd hwn yn amlwg yn gyfle arbennig o dda iddyn nhw glywed y Gymraeg.

Nid oedd y gwaith yma o drefnu digwyddiadau yn hawdd o bell ffordd. Yn bersonol, roeddwn yn ei gweld hi´n anodd trefnu dyddiad a gweithgaredd a fyddai'n denu nifer fawr o bobl - hynny yw rhywbeth a fydd dechreuwyr yn gallu mynychu. Yn ystod mis Mai trefnais Noson Gwis yn Nhrevelin.

Roedd hon yn noson lwyddiannus iawn os nad y noson fwyaf llwyddiannus. Er mwyn hysbysebu'r digwyddiad, rhoddwyd nodyn yn llyfrau plant Ysgol Y Cwm. Fe ddaeth ambell i riant i´r noson a chymdeithasu a dysgu pethau newydd.



**Noson gwis yn Nhrevelin**

Un o uchafbwyntiau fy amser yn yr Andes oedd cael cyhoeddi Llais yr Andes ym mis Mehefin. Dechreuais gasglu deunydd ar ei chyfer yn ystod mis Mai. Fy mwriad oedd cael trawstoriad amrywiol o´r hyn a oedd wedi bod yn digwydd yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn. Fe oedd nifer o bethau gwahanol yn cynnwys – storïau, cyflwyniadau a theyrngedau.

**Gweithio yn Nyffryn Camwy: Ysgol Gymraeg y Gaiman (YGYG)**

Fel rhan o´m gwaith wythnosol bues i'n cynorthwyo yn YGYG. Yn ystod yr amser yma rydw i wedi bod yn cynorthwyo gyda gwersi addysg gorfforol a dw i wedi bod yn cynnal clwb yr Urdd gyda Cari a Mike, y ddau athro o Gymru sy'n gweithio i'r Ysgol yn uniongyrchol. Mae rhwng 14 a 20 o blant yn dod yn wythnosol. Rydym wedi bod yn gwneud nifer o bethau amrywiol o chwarae gemau newydd i greu murlun ar gyfer wal newydd yr ysgol. Yn ystod y sesiynau yma mae´r ffocws wedi bod ar gael hwyl, mwynhau a siarad Cymraeg. Mae´r plant wedi mwynhau dysgu gemau newydd ac wedi bod wrth eu boddau yn gwneud gwaith celf ar ôl edrych ar waith Rhiannon a Sioned Glyn. Mae gallu cynnal y clwb yma wedi bod yn un o uchafbwyntiau fy amser yn y Dyffryn.

**Clwb y Ddraig Fach**

Mae´r clwb yma yn cael ei gynnal yn ysgol yr Hendre (Adeilad Moreno). Er bod y clwb ar agor i bawb, plant ysgol yr Hendre yn unig sydd wedi mynychu eleni. Mae´r plant yn amrywio o ran oedran a gallu ond mae´n hawdd addasu gweithgareddau yn ôl yr angen.

Mae´r plant wedi gwneud amrywiaeth o bethau er mwyn cryfhau ei Gymraeg. Rydw i wedi bod yn gwneud y sesiynau ar y cyd gyda Norma Price. Rydym wedi gweithio yn dda gyda´n gilydd – yn dewis thema i edrych arni ac wedyn gweithio ar batrymau iaith neu eirfa yn dilyn y thema.



**Sinead (mewn crys coch ar y dde) a Norma Price gyda rhai o blant Clwb y Ddraig fach yn Nhrelew**

**Clwb Urdd Trelew (Ieuenctid Trelew)**

Mae´r clwb yma yn digwydd ar nosweithiau Gwener yn safle ysgol yr Hendre .Mae´r rhai sydd wedi bod yn mynychu yn gyson eleni i gyd yn gyn disgyblion ysgol yr Hendre ond maen nhw bellach mewn ysgolion uwchradd Sbaeneg. Mae´n hanfodol felly bod y cyfle yma iddynt ymarfer eu Cymraeg yn bodoli. Rydym wedi gwneud nifer o bethau amrywiol yn cynnwys cwis, sialensiau gwahanol, gemau cardiau amrywiol a hefyd maen nhw wedi dysgu fi sut i chwarae gêm dis o´r Ariannin.



**Dosbarth Plant Porth Madryn**

**Dosbarth Plant Madryn**

Yn ystod Eisteddfod Mimosa ym Mhorth Madryn ym mis Awst ces i sgwrs gyda rhai o Gymdeithas Gymraeg y dre a oedd yn awyddus i ddechrau dosbarth plant yng nghanolfan Toschke. Ar ôl ychydig o drefnu a gweithio amserlen dechreuwyd dosbarth newydd ar y 14eg o fis Medi.

Daeth 15 o blant i´r sesiwn gyntaf ac mae´r mwyafrif ohonynt wedi bod yn dod yn gyson bob wythnos. Mae hyn yn dangos yn glir yr angen sydd 'na am wersi plant yn Madryn. Roedd nifer o´r plant yn rhan o´r cymdeithas yn barod gan eu bod yng ngrŵp dawnsio gwerin y Gymdeithas. Mae´r plant yn frwdfrydig iawn wrth chwarae a dysgu ac mae nifer ohonynt yn ymarfer tu hwnt i´r sesiwn.

**Taith yr Urdd 2019**

Mae taith flynyddol yr Urdd yn rhan fawr o´n gwaith ni fel swyddogion. Credaf fy mod i wedi bod mewn sefyllfa gryfach eleni gan fy mod i'n gweithio gyda'r Urdd yn 2018 ac roeddwn yn rhan o'r staff a ddaeth ar y daith i'r Wladfa. Roedd gen i syniad da ynglyn â sut roedd pethau'n fod i weithio, felly. Cyrhaeddodd y grŵp y Wladfa ar y 24ain o Hydref a threulion nhw bum diwrnod yn y Dyffryn cyn mynd draw i´r Andes a threulio 5 diwrnod yno hefyd, cyn gadael am Buenos Aires ar y 4ydd o Dachwedd. Fi oedd yn gyfrifol am drefnu'r amserlen, archebu'r llety a threfnu'r gweithgareddau.




**Criw'r Urdd 2019**

Yn ystod y daith roeddwn yn treulio llawer o amser gyda´r grŵp. Gan fy mod yn Swyddog Menter, roedd yn llawer haws imi wneud hyn nag oedd i'r Swyddogion Dysgu.

Roedd y daith yn llawn gweithgaredd amrywiol – ymweliadau â'r ysgolion, rafftio dŵr gwyn, taith i weld y pengwiniaid, cyfarfod cymdeithasau Cymraeg gwahanol ac wrth gwrs nifer o gyngherddau.

## *PIGION O ADRODDIADAU'R SWYDDOGION DATBLYGU (DYSGU) 2019*

**Geraint Ashton, Swyddog Dysgu Dyffryn Camwy 2019**

Pan gyrhaeddais cefais fy nghroesawu yn syth yn y gymuned gyda chyngerdd Gŵyl Dewi ar ddechrau'r cyfnod. Cyfle gwych i ddechrau dod i adnabod trigolion y pentref. Yn dilyn hyn, ces i fy ngwahodd i gymryd rhan ar sioe radio Luned González yn siarad amdanaf i fy hun a beth fydda i'n ei wneud yn y Dyffryn. Mae swyddogion bob blwyddyn yn cael y cyfle i fynd a siarad ar y sioe radio. Mae hi'n bosib gwrando ar y radio ar-lein ar Radio Chubut, *La Hora Galesa* yw enw'r rhaglen radio.

Yn Ysgol Gymraeg y Gaiman, fe'm cyflwynwyd i staff eraill yr ysgol. Gwnaethom fideo byr yn dymuno Dydd Gŵyl Dewi o Batagonia, a ddarlledwyd ar raglen Heno ar S4C. Wedyn fe'm cyflwynwyd gan Luned i aelodau Coleg Camwy a chafwyd noson groesawu i staff newydd Ysgol yr Hendre.

Ar ôl hyn, cafwyd gweithgareddau megis Cinio Gala Dewi Sant llawn cerddoriaeth, dawnsio a chanu. Cyfle gwych arall i gwrdd â rhagor o drigolion y Wladfa gan gynnwys cymysgedd mawr o drigolion Trelew a'r Gaiman. Unwaith y mis, mae cwrdd Cymraeg yn y capel ac yn fuan iawn yn y flwyddyn cafwyd cwrdd diolchgarwch yn y capel.



**Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi gyda Meic a Cari (athrawon Ysgol y Gaiman), Fi (yn y canol gyda crys glas), Caitlin, Siwan a Rhydian (athrawon Ysgol yr Hendre)**

Eleni, rwyf wedi bod yn hynod ffodus i gael dod yma i'r Wladfa a phrofi sut mae byw yn y Gaiman ymysg siaradwyr Cymraeg ar ochr arall y byd! Yn wir, mae'r profiad wedi bod yn anhygoel.

**Dosbarthiadau**

Isod mae tabl o bob dosbarth rwyf wedi bod yn ei ddysgu eleni:

| Lleoliad | Adeilad | Dosbarth |
|---|---|---|
| Gaiman | Coleg Camwy | Dosbarth Mynediad |
| Gaiman | Coleg Camwy | Dosbarth Sylfaen |
| Gaiman | Coleg Camwy | Dosbarth Sgwrsio |
| Gaiman | Ysgol Gymraeg y Gaiman | Dosbarth Caerffili - disgyblion |
| Gaiman | Ysgol Gymraeg y Gaiman | Athrawon - amrywiaeth o lefelau |
| Gaiman | Tŷ Camwy | Canolradd/**Uwch** |
| Gaiman | Y Clwb Rygbi | Dosbarth Mynediad - Oedolion |
| Trelew | Hendre, Moreno | Mynediad |
| Trelew | Hendre, Moreno | Sylfaen |
| Trelew | Hendre, Moreno | Canolradd |
| Trelew | Cymdeithas Dewi Sant | Clwb Sgwrsio * |
| Trelew | Cymdeithas Dewi Sant | Dosbarth Mynediad* |
| Trelew | Hendre, Moreno | Clwb y Ddraig Fach** |
| Porth Madryn | Tŷ Toshcke | Mynediad/Sylfaen |

Gwelwyd cynnydd mawr gyda phob dosbarth ac mae wedi bod yn bleser eu gweld yn cynyddu hyder yn fwy nag unrhyw beth wrth geisio defnyddio’r iaith dros y flwyddyn nesaf.



**Gwasanaeth yng Nghapel Bethel, y Gaiman**

Ym mis Gorffennaf, bu gweithgareddau Gŵyl y Glaniad (28ain o Orffennaf). Mae hyn yn ddigwyddiad mawr iawn yn y Wladfa. Eleni, aeth criw ohonom fel athrawon o Gymru i Borth Madryn ar y diwrnod er mwyn dathlu gyda nhw a chario baner Cymru. Bues i hefyd yn rhan o'r ail berfformiad o gyfnewid bara a chig gyda'r brodorion. Ar y dydd Sadwrn, roedd llawer o gapeli yn cynnal te prynhawn. Mynychais i’r te yng Nghapel Bethel er mwyn cefnogi gwaith disgyblion Coleg Camwy. Braf iawn eu gweld nhw’n gweithio yno. Darllenais hefyd yn Acto (defod, h.y. gwasanaeth neu ddathliad arbennig gyda’r baneri) Gŵyl y Glaniad yn Ysgol Gymraeg y Gaiman. Braf iawn hefyd oedd gweld disgyblion yr ysgol yn perfformio mewn cyngerdd hyfryd yn yr Eglwys Fethodistiaid yn y Gaiman.







**Cario'r faner ym Madryn** **Gorymdeithio ym Madryn - Cari, Rhydian, Fi a Sinead**

Y mis canlynol, roedd llawer o bethau'n digwydd! Cefais fy ngwahodd i fod yn feirniad adrodd yn Eisteddfod y Mimosa ym Mhorth Madryn. Roedd yn fraint cael gwylio'r disgyblion o wahanol ysgolion yn perfformio - roedd eithaf tipyn wedi cystadlu a bu rhagbrofion yn y bore hefyd. Pleser o'r mwyaf gweld y safon! Gyda'r nos, cystadlais yn y dawnsio (eto am y tro cyntaf!!) gyda Gwanwyn Dim Problem - grŵp sy'n hyfforddi gyda'r nos yn adeilad Cymdeithas Dewi Sant yn Nhrelew.

Yn ystod yr oedfa Gymraeg y mis hwn, roeddwn i wedi darllen rhan o'r gwasanaeth. Fe'i paratowyd ar fy nghyfer a fi oedd yn darllen y geiriau gan gynnwys yr adnodau. Yn dilyn yr oedfa, roedd noson gymdeithasol gyda grŵp o glocswyr o Gymru gyda chawl. Cafwyd nifer o ganeuon Cymraeg a chyfle i gymdeithasu a chroesawu'r clocswyr i'r Gaiman.

Cyrhaeddodd Myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd ym mis Awst. Mae pum myfyriwr yn flynyddol yn derbyn ysgoloriaeth gan fanc Santander er mwyn treulio mis yn gwneud profiad gwaith ym Mhatagonia. Fe'u hebryngais o Borth Madryn gyda Sinead i nifer o weithgareddau yn y Gaiman a dilynodd y tri ohonyn nhw fi i wersi gan gyflwyno eu hunain a chymryd rhan. Un o'r pethau cyntaf a helpon nhw gydag ef oedd "Te Pen-blwydd Ysgol Gymraeg y Gaiman." Llwyddiant ysgubol gyda'r Myfyrwyr yn ein helpu i weini te yn y digwyddiad.



Fi a Sinead yn barod i ddawnsio



Cyngerdd yn y Gaiman

Roedd hi'n flwyddyn brysur iawn ond mae wedi bod yn bleser a braint anhygoel cael bod yn rhan o fywyd y Wladfa a rhannu'r profiadau hyn gyda phobl o bob oed a gallu eu Cymraeg yn ystod y 10 mis diwethaf. Heb os, roedd hon yn un o flynyddoedd mwyaf prysur fy mywyd ond un o'r  mwyaf gwerthfawr o'm bywyd.

**Gruffydd Evans, Swyddog Dysgu'r Andes 2019**

Amserlen

| **Llun** | **Mawrth** | **Mercher** | **Iau** | **Gwener** |
|---|---|---|---|---|
| | Ysgol y Cwm<br>9.00-12.45 | Ysgol y Cwm<br>9.45-12.45 | Ysgol y Cwm<br>9.00-12.00 | Plant (Esquel)<br>9.30-11.00 |
| 13.30-15.30<br>Ysgol 24 | | | | |
| 16.00-18.00<br>Meistroli | Mynediad<br>(Trevelin)<br>15.00-17.15 | Mynediad/<br>Uwch II (Esquel)<br>16.00-17.30 | Mynediad<br>(Trevelin)<br>15.00-17.15 | |
| 18.00-19.30<br>Mynediad<br>(Esquel) | Plant (Trevelin)<br>18.00-19.30 | | Plant (Trevelin)<br>18.00-19.30 | Pellach<br>(Trevelin)<br>19.00-20.30 |




**Gruffydd yn dysgu un o ddosbarthiadau Oedolion Trevelin**

Mae hi wedi bod yn brysur iawn eleni yn y Wladfa ac mae hi'n hyfryd gweld cymaint o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau Cymraeg a hefyd yn mynychu gwersi Cymraeg.

**Ysgol y Cwm**

Mae hi wedi bod yn fraint cael gweithio o fewn yr ysgol yma dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r staff yn hynod gyfeillgar a'r plant yn hapus, yn mwynhau eu gwersi Cymraeg ac yn barod iawn i ddysgu.

Roeddwn i'n teimlo'n freintiedig iawn yn cael bod yn rhan o'r teulu bach clos yma ac wedi mwynhau bod yn rhan o ddysgu 'r plant, staff yr ysgol a hefyd bod yn rhan o'r digwyddiadau o fewn yr ysgol - y defodau pwysig fel dathliadau y 25 o Fai, Diwrnod y Faner, 'Diwrnod y plant', a'r 'Marathon Darllen' i enwi dim ond rhai. Yn ogystal â hyn roeddwn i wedi mwynhau helpu gweddill yr athrawon i baratoi'r plant at yr holl Eisteddfodau drwy gael helpu gyda'r gwaith cartref ar lawr y dosbarth a chyda'r gwaith perfformio yn y neuadd.



**Gruffydd gyda dosbarth yn Ysgol y Cwm, Trevelin**

**Dosbarth Mynediad II/Uwch Esquel**

Roeddwn i'n rhannu'r dosbarth gydag un o diwtoriaid lleol yr Andes, Grisel Roberts ac eleni fe orffennodd y dosbarth y cwrs Mynediad II a dechrau ar y cwrs Uwch. Hefyd mae dau o fewn y dosbarth eisiau gwneud yr arholiad flwyddyn nesaf.  Gan imi weld yn gynnar yn y flwyddyn bod angen mwy o ymarfer sgwrsio arnyn nhw, fe benderfynon ni i ddefnyddio'r hanner awr olaf o bob gwers oedd yn gyfan gwbl ar gyfer sgwrsio yn unig.

Mi roeddwn i'n mynd â chardiau fflach er mwyn ysgogi sgwrsio neu weithiau roedden ni'n sgwrsio yn naturiol am ddigwyddiadau cyfoes. Mae ganddynt oll eirfa dda, ond rhaid parhau i ymarfer gyda defnyddio'r iaith yn naturiol.  Mae aelodau'r dosbarth yn dangos brwdfrydedd i ddysgu'r Gymraeg ac yn mwynhau eu gwersi a bod yn rhan o'r diwylliant Cymreig. Roedd aelodau o'r dosbarth hefyd wedi mynychu digwyddiadau cymdeithasol a drefnwyd gan y fenter yn Esquel gan ddweud eu bod wedi mwynhau'r profiad a'r ymdeimlad Cymreig a gawsant yn y nosweithiau hyn.

**Dosbarth Uwch Trevelin**

Roeddwn yn rhannu'r dosbarth yma gyda Gwion, un arall o diwtoriaid lleol yr Andes a theimlaf fod y dosbarth yma wedi gwneud cynnydd drwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y cyfnod aethon ni ati i ddechrau cychwyn dysgu caneuon Cymraeg cyfoes i'r dosbarth. Fe wnaethon ni ddysgu caneuon gan Gai Tom a Bryn Fôn ymysg eraill.

Mae hwn yn ffordd effeithiol a difyr i orffen y dosbarth ac maen nhw'n dysgu geirfa newydd heb feddwl. Mae aelodau'r dosbarth yn dangos brwdfrydedd i ddysgu'r Gymraeg ac yn mwynhau eu gwersi a bod yn rhan o'r diwylliant Cymreig.



**Dosbarth Oedolion yn y Ganolfan yn Esquel**

**Nosweithiau Cymdeithasol**

Trefnwyd nifer o weithgareddau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ac roedd hi´n bleser gallu bod yn rhan o weithgareddau difyr dros ben. Mae´r gweithgareddau yn gyfle i bobl i gymdeithasu yn Gymraeg tu allan i´r ystafell ddosbarth ac i weld yr iaith fel iaith bob dydd. Trefnwyd nosweithiau amrywiol er mwyn sicrhau fod rhywbeth addas i bawb - o nosweithiau Cawl a Chân, nosweithiau gyda´r bobl leol sydd wedi bod ar ysgoloriaethau yng Nghymru yn gwneud cyflwyniadau, nosweithiau teisennau, cynnal stondin yn y ffeiriau llyfrau a llawer mwy. Roedd niferoedd yn amrywio o weithgaredd i weithgaredd ac yn amrywio o ganlyniad i salwch, gwyliau neu weithgareddau oedd yn barod ymlaen gyda´r teulu. Roedd y nosweithiau yn braf iawn ac yn gyfle i gymdeithasu gyda phobl o bob oed. Roedden ni´n rhan o´r digwyddiadau cymdeithasol o´r dechrau, a gwelson ni pa mor bwysig oedd mynychu bob gweithgaredd oedd yn cael ei drefnu yn Gymraeg, nid yn unig y gweithgareddau roeddwn i´n gyfrifol am drefnu.



## Argymhellion 2018: Adroddiad Cynnydd

**1 *Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.***
***Byddwn yn ceisio ehangu nifer ac ystod y dosbarthiadau Oedolion yn Nyffryn Camwy a cheisio cynyddu'r niferoedd yn nosbarthiadau'r Andes***

Mae'r gobeithion uchod wedi'u gwireddu'n rhannol eleni. Er na lwyddwyd i ehangu nifer y dosbarthiadau Cymraeg ar draws y Dalaith, mae'n galonogol nodi bod niferoedd yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg wedi cynyddu 14.01% ar draws y dalaith yn ystod 2019. Mae niferoedd y Gaiman wedi dangos codiad bychan ond mae'r cynnydd yn ardal yr Andes ei hun yn 25% ac mae'r ffigwr cyfatebol yn Nhrelew a Phorth Madryn yn 18.6%. Mae hyn yn newyddion calonogol dros ben, a gobeithio'n wir y bydd y patrwm yma yn cynnal ac yn gwella ymhellach yn ystod 2020.

**2 *Cefnogi'r Ysgolion Dwyieithog***
***Parhau i gefnogi'r Ysgolion Dwyieithog hyd ein gallu gyda chymorth ymarferol ac ariannol fel bod yr ysgolion yn parhau i dyfu a ffynnu.***

Mae'r Cynllun Cymraeg wedi parhau i gefnogi gwaith yr ysgolion dwyieithog - Ysgol yr Hendre Trelew, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol y Cwm, Trevelin - trwy gydol 2019. Roedd amserlen waith y ddau Swyddog Dysgu eleni – Geraint Ashton yn Nyffryn Camwy a Gruffydd Evans yn yr Andes - yn cynnwys talp sylweddol o amser yn dysgu yn yr ysgolion cynradd dwyieithog yn y Gaiman a Threvelin. Roedd Ysgol yr Hendre Trelew mewn sefyllfa ffodus o allu cyflogi dau athro o Gymru eu hunain i weithio yn yr ysgol eleni.
Nid oes gan y Cynllun gyllid digonol i gefnogi'r holl waith yn yr ysgolion, felly mae'n arbennig o galonogol unwaith yn rhagor nodi bod yr ysgolion dwyieithog yn parhau i allu cyflogi athrawon eu hunain o Gymru i ddysgu yn eu hysgolion. Mae rhan o gyllid y Cynllun er hynny, yn cyfrannu tuag at gyflogau nifer o athrawon ysgolion cynradd y Gaiman a Threvelin yn ogystal â thuag at rai cynorthwywyr Meithrin yn Ysgol yr Hendre.

***3 Cyllid.***

Nid yw lefel craidd cyllid y Cynllun wedi codi o gwbl yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mewn gwirionedd, mae gwerth yr arian yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn oherwydd chwyddiant yma yng Nghymru ac yn yr Ariannin. Fel y nodwyd eisoes, roedd chwyddiant yn yr Ariannin y llynedd yn **53.8%,** ac er y bu cryn ddibrisiad yn arian y wlad (Peso yr Ariannin) yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd ei bod yn profi'n gynyddol anodd cefnogi cymaint o weithgaredd ar draws y dalaith. Er mwyn gwella ychydig ar gyflogau'r athrawon a'r tiwtoriaid lleol sy'n gweithio ar ran y Cynllun, clustnodwyd cyfraniad ariannol Cymdeithas Cymru Ariannin i'r Cynllun eleni i gyllideb cyflogau'r tiwtoriaid lleol. Yn ychwanegol, fel nodwyd yn gynharach, derbyniwyd cyllid ychwanegol gan Gymdeithas Cymru Ariannin i gyllid y Cynllun eleni er mwyn gallu talu am waith y Swyddog Menter.
Oherwydd sefyllfa economaidd fregus y sector gyhoeddus yng Nghymru, nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw wella ar yr arian craidd y byddwn yn ei dderbyn ar gyfer 2020. Rydym yn obeithiol er hynny, y bydd ychydig o gyllid ar gael yn achlysurol ar gyfer prosiectau penodol yn ystod y flwyddyn nesaf. Ni ddaeth unrhyw newyddion pellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â galluogi'r Cynllun i weithredu cylch cyllido tair blynedd. Byddai cael hyn yn gymorth mawr o ran cynllunio yn y tymor hir.

***4 Hyfforddiant ac ansawdd.***
***Byddwn yn parhau'r rhaglen hyfforddiant a'r cynllun addasu cyrsiau newydd gyda Phrifysgol Bangor***

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sydd bellach yn gyfrifol am hyfforddiant tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yng Nghymru. Y gobaith yw felly y bydd y Cynllun yn gallu manteisio ar arbenigedd y Ganolfan yn y maes yn y dyfodol. I'r perwyl yma, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda'r Ganolfan yn y gobaith o ymestyn y cynllun hyfforddiant i gynnwys tiwtoriaid Patagonia. Mae'r Ganolfan eisoes wedi bod yn ein cynorthwyo gyda chymorth ymarferol i rai o'r Swyddogion Datblygu sydd wedi bod yn y Wladfa yn gweithio gydag Oedolion. Rydym yn obeithiol y byddwn yn gallu dod i gytundeb ar gyfer y dyfodol fel y bydd tiwtoriaid y Wladfa yn gallu manteisio ar y fethodoleg ddiweddaraf yn y maes arbenigol hwn. Fel rhan o'r broses yma, bydd cynrychiolydd o Brifysgol Bangor yn teithio i Batagonia i gynnal sesiynau hyfforddiant tiwtoriaid yn gynnar yn 2020.

**5 Gwaith Menter Patagonia.**
**Parhau i bwysleisio pwysigrwydd y gwaith pwysig o roi cyd-destun cymdeithasol i'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth fel rhan o broses normaleiddio'r iaith yn nhalaith Chubut.**

Buom mewn sefyllfa freintiedig eleni o allu penodi Swyddog Datblygu Menter llawn amser, a fyddai'n cysegru'r holl amser i gymdeithasoli iaith ar draws y dalaith. Roedd hyn yn golygu y byddai'r ddau Swyddog Datblygu arall yn gallu canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y dysgu.
Mae creu cyd-destun i'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth yn allweddol bwysig yn y Wladfa gan na chlywir y Gymraeg ar y radio na'r teledu bellach. Nid oes chwaith unrhyw bapur newydd Cymraeg yn cael ei argraffu'n rheolaidd. I bob pwrpas felly, mae'r iaith yn hollol anweledig yn y cymunedau a chan nad yw'r iaith yn brif gyfrwng cyfathrebu, mae taer angen paratoi gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol. Fel y gwelir oddi wrth adroddiad Sinead Harris y Swyddog Menter eleni, croesawyd yr arbrawf yma gan nifer fawr o'r trigolion yn y Wladfa eleni a'r gobaith yw bod yr ymgais arloesol yma wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer y math yma o waith yn y dyfodol.



**Dosbarth Cymraeg yn Ysgol Bryn Gwyn, Dyffryn Camwy**

## *Argymhellion 2020*

***1 Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.***
*Ceisio cynnal a chryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y dosbarthiadau Oedolion yn Nyffryn Camwy a'r Andes, gan geisio cynyddu'r nifer o ddosbarthiadau a niferoedd y dysgwyr.*

***2 Parhau i gefnogi ystod eang o waith gyda'r Gymraeg yn y Wladfa***
*Parhau i ddefnyddio adnoddau'r Cynllun i gefnogi ystod eang o weithgareddau dros y Gymraeg - y dosbarthiadau Oedolion, y sector arddegau a'r ysgolion cynradd dwyieithog. Ni ddylid anghofio bod nifer yr oedolion sy'n mynychu'r dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn rhieni i blant yr ysgolion dwyieithog, ac wrth fynychu'r dosbarthiadau maent yn dangos eu cefnogaeth i addysg Gymraeg eu plant. Yn ychwanegol, gan nad oes darpariaeth ddigonol ar gyfer y sector Uwchradd yn rhan fwyaf o'r dalaith, mae'n allweddol bod y Cynllun yn parhau i gynnig darpariaeth ddigonol ar eu cyfer. Mae gwneud hyn oll yn rhoi arwydd clir bod y Cynllun yn cefnogi'r gymuned yn ehangach yn hytrach na dim ond un sector yn benodol.*

***3 Cyllid.***
*Nid yw lefel ein cyllid wedi newid llawer ar hyd y blynyddoedd diwethaf, felly rydym yn gobeithio y bydd cyfanswm cyllid craidd y Cynllun yn codi ac y bydd hi'n bosib cynllunio'n well hir dymor gyda chylch cyllido dros dair blynedd.*

***5 Hyfforddiant ac ansawdd.***
*Byddwn yn parhau'r rhaglen hyfforddiant a'r cynllun addasu cyrsiau newydd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid eraill*

***6 Gwaith Menter Patagonia.***
*Parhau i bwysleisio pwysigrwydd y gwaith pwysig o roi cyd-destun cymdeithasol i'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth fel rhan o broses normaleiddio'r iaith yn nhalaith Chubut.*



**Soraya Williams, un o diwtoriaid yr Andes gyda dosbarth lefel Canolradd yn y Ganolfan, Esquel**